**Jane Hutt AC**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/0031/20

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

26 Chwefror 2020

Annwyl John,

Yn ystod fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddydd Mercher 12 Chwefror 2020, cytunais i anfon y wybodaeth ganlynol atoch:

- Rhestr o gyflawniadau'r Ddeddf ers y sesiwn dystiolaeth ddiwethaf, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2018 – mae hon wedi'i hatodi yn nogfen 1.
- Manylion y Dangosyddion Cenedlaethol – mae'r rhain i'w gweld drwy ddilyn y ddolen: https://llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-dangosyddion-cenedlaethol-ar-gyfer-cymru;
- Dolenni i'r pecyn cymorth i ysgolion a'r canllawiau ar-lein – mae'r rhain ar gael drwy ddilyn y ddolen hon – https://llyw.cymru/drais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-vawdasv-pecyn-addysg
- Ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, pan fydd ar gael – rwy'n disgwyl yr ymchwil hon yn ystod yr wythnosau nesaf a byddaf yn ei hanfon ymlaen atoch ar ôl i mi ei chael.

Yn gywir,

**Jane Hutt AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Cyflawniadau ers ymddangosiad olaf cyn-Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James AC, yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 7 Tachwedd 2018

**Rhagfyr 2018:** Cyhoeddwyd Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth ar "yr hyn sy'n gweithio" i leihau'r tebygolrwydd y bydd y rhai hynny sydd wedi cyflawni cam-drin domestig yn aildroseddu.

**Rhagfyr 2018:** Cyhoeddwyd Safonau Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithio gyda chyflawnwyr trais.

**Ionawr 2019:** Lansiwyd ymgyrch “Nid cariad yw hyn: rheolaeth yw hyn", yn canolbwyntio ar reolaeth drwy orfodaeth.

**9 Mawrth 2019:** Cynhaliodd Llywodraeth Cymru seminar ar y cyd â'r Swyddfa Gartref ar Ganllaw Ymarferol ar Orchmynion Diogelu Priodasau dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

**25 Mawrth 2019:** Comisiynwyd Cymorth i Ferched Cymru gan Lywodraeth Cymru i gynnal Cynhadledd Genedlaethol ar Arweinyddiaeth ar gyfer y Sector Cyhoeddus.

**Mai 2019:** Cyhoeddwyd canllawiau statudol ar gomisiynu gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

**Mai 2019:** Cyflwynodd yr awdurdodau perthnasol eu hail adroddiad blynyddol yn unol â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

**Mehefin 2019:** Cyhoeddwyd Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer VAWDASV.

**5 Gorffennaf 2019:** Cyhoeddwyd Adroddiad Cynnydd Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019.

**Mehefin 2019:** Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfarfod bord gron ag uwch-arweinwyr er mwyn trafod achosion o aflonyddu ar y stryd. Yn sgil y cyfarfod hwn, gwnaeth y cynrychiolwyr ymrwymiadau ysgrifenedig i fynd i’r afael ag achosion o aflonyddu ar y stryd yn eu sefydliadau.

**Awst 2019:** Cynhyrchodd CAFCASS Cymru ddau ganllaw i ymarferwyr ar gam-drin domestig a gweithio gyda phlant.

**Medi 2019:** Cyhoeddodd y Cynghorwyr Cenedlaethol eu hadroddiad cynnydd blynyddol ar gyfer 2018-19.

**Medi-Tachwedd 2019:** Treialodd Llywodraeth Cymru banel ymgysylltu â dioddefwyr, yr ydym wrthi'n ei werthuso er mwyn ei gyflwyno'n ehangach o bosibl.

**Tachwedd 2019:** Cyhoeddodd y Cynghorwyr Cenedlaethol eu cynllun blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021.

**Tachwedd 2019:** Cyhoeddwyd Canllawiau Arfer Da i weithwyr gwasanaethau cyhoeddus anarbenigol mewn perthynas â gweithio gyda chyflawnwyr sy'n oedolion.

**6 Chwefror 2020:** Lansiwyd ymgyrch gyfathrebu ar thema rheolaeth a thrais rhywiol. Dyma'r ymgyrch 'Nid cariad yw hyn' ddiweddaraf.  Mae'r ymgyrch hon wedi cyfeirio pobl at linell gymorth Byw Heb Ofn, gyda galwyr yn cyfeirio at yr ymgyrch, a bu dros 70,000 o ymweliadau â thudalennau gwe yr ymgyrch.

## Gwaith sy'n Mynd Rhagddo

Adroddiadau Cynnydd

- Mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol wedi cyflwyno pedwar adroddiad cyfnodol i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gynnydd tuag at roi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith.

Dangosyddion Cenedlaethol a'r Strategaeth Genedlaethol

- Rydym wedi cynnal pedwar o chwe gweithdy a gynlluniwyd er mwyn mireinio'r Dangosyddion Cenedlaethol ymhellach a nodi ffynonellau data ychwanegol. Caiff dau weithdy pellach eu cynnal ym mis Mawrth. Bydd hyn hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu ein strategaeth bum mlynedd nesaf.
- Rydym wedi cynnal dau Grŵp Rhanddeiliad Arbenigol, wedi'u cadeirio gan y Cynghorwyr Cenedlaethol. Mae pedwar Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru yn rhan o'r grŵp hwn, sy'n mynd ar drywydd ffrydiau gwaith er mwyn llywio'r Strategaeth Genedlaethol nesaf.

Cyflawnwyr

- Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yng Nghymru wedi cytuno i roi Safonau Gwasanaeth Cyflawnwyr VAWDASV Llywodraeth Cymru ar waith ar gyfer pob ymyriad sy'n ymwneud â VAWDASV nad yw wedi'i achredu.
- Ers mis Tachwedd 2018, cynhaliwyd chwe digwyddiad rhannu arferion i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda chyflawnwyr.
- Ers mis Ionawr 2019, rydym wedi'u cefnogi Prosiect Meistr mewn Ymchwil ar aflonyddu mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe.
- Rydym yn parhau i gefnogi nifer o brosiectau ymchwil Meistr mewn Seicoleg Fforensig sy'n gwerthuso gwasanaethau i gyflawnwyr yng Nghymru. Ers y cyfarfod diwethaf, mae un prosiect wedi'i gwblhau ac mae tri arall wedi'u rhoi ar waith.

Hyfforddiant a Datblygiad

- Mae hyfforddiant Gofyn a Gweithredu bellach ar gael ledled Gwent, Cwm Taf, Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yn ogystal â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd. Caiff y gwaith o gyflwyno Gofyn a Gweithredu yn llawn ei gwblhau yn ystod 2020-21.
- Yn dilyn Diwrnod y Rhuban Gwyn ar 21 Tachwedd 2019, mae saith llysgennad Rhuban Gwyn arall wedi cael eu recriwtio yn Llywodraeth Cymru, ac rydym yn dechrau gwaith i adnewyddu achrediad Rhuban Gwyn Llywodraeth Cymru.
- Rydym yn cynllunio hyfforddiant i Aelodau'r Cynulliad a'u staff ar VAWDASV.

Ymgysylltu â Goroeswyr

- Rydym yn cynnal adolygiad i nodi dulliau mwy effeithiol o ymgysylltu â gwahanol grwpiau er mwyn sicrhau bod llais ganddynt wrth ddatblygu a chyflwyno polisïau.

Addysg

- Gweithiodd swyddogion gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ddatblygu canllawiau ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar fynd i'r afael â VAWDASV, i'w cyhoeddi ym mis Mawrth 2020.
- Mae swyddogion yn gweithio gyda Chyd-bwyllgor Addysg Cymru i gynllunio a threialu her Mentora Cymheiriaid Iechyd a Llesiant ar gyfer Diploma Uwch

Bagloriaeth Cymru. Bydd hyn hefyd yn hyrwyddo Rhaglen Eiriolwyr Ifanc y Rhuban Gwyn.

- Mae arweinwyr polisi wedi bod yn cydweithio i ddatblygu'r elfennau VAWDASV ym maes Cydberthnasau a Rhywioldeb y cwricwlwm newydd. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ar 21 Ionawr y bydd plant yng Nghymru yn gallu manteisio'n llawn ar y cwricwlwm.

Cyllid

- Rydym wedi dyfarnu £2.4 miliwn i ariannu prosiectau cyfalaf newydd rhwng 2018 a 2020.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu gwerth £120,000 o grantiau i'r saith rhanbarth er mwyn eu helpu i wella darpariaeth gwasanaethau i gyflawnwyr yn eu hardaloedd yn ystod 2019-20.
- Cyhoeddwyd £0.25 miliwn o refeniw ychwanegol yng nghyllideb ddrafft 2020-21, gan gynyddu'r gyllideb refeniw ar gyfer VAWDASV i £5.25 miliwn.
- Cyhoeddwyd £1.2 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol yng nghyllideb ddrafft 2020-21 ar gyfer unedau gwasgaredig i'r rhai hynny nad yw darpariaeth llochesau yn briodol ar eu cyfer.